# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Mawrth, 24 Ionawr 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
J.M. Charles, A.P. Cooper, D.B. Davies, I.W. Davies, J.A. Davies, M.J.A. Lewis, K. Madge, T. Davies, W.T. Evans, J.K. Howell, I.J. Jackson, A.W. Jones, H.I. Jones, G.B. Thomas (yn lle W.J. Lemon), S.M. Allen a J.S. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
L. Quelch, Y Pennaeth Cynllunio;
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr;
G. Noakes, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y Dwyrain);
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De);
K. James, Peiriannydd Cynorthwyol (Cydgysylltu Cynllunio);
S. Willis, Swyddog Rheoli Datblygu;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Neuadd y Sir - 11.15 am - 1.45 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D.C. Evans, W.J. Lemon a M.K. Thomas.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONAL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| G.B. Thomas | 3 - Cais Cynllunio S/34627 - Cais ôl-weithredol am gadw canopi patio yn y cefn, 91 Heol y Parc, Pontarddulais, Abertawe, SA4 0XX | Mae'n adnabod yr ymgeisydd. |

## 3. S34627 - CAIS ÔL-WEITHREDOL AM GADW CANOPI PATIO YN Y CEFN, 91 HEOL Y PARC, PONTARDDULAIS, ABERTAWE, SA4 0XX

(NODER: Roedd y Cyng. G. B. Thomas wedi datgan buddiant yn yr eitem hon a gadawodd y cyfarfod ar ôl ei sylwadau a chyn i'r Pwyllgor ystyried y cais.)

Cyfeiriodd y Swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y De) at ymweliad preifat y Pwyllgor â'r safle'n gynharach y diwrnod hwnnw (gweler cofnod 6 cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio oedd wedi ei gynnal ar 20 Rhagfyr 2016) a oedd wedi ei gynnal er mwyn i'r Pwyllgor gael golwg ar y canopi mewn perthynas â'r eiddo cyfagos. Cyfeiriodd, gyda chymorth sleidiau PowerPoint, at adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio a oedd yn rhoi arfarniad o'r safle, ynghyd â disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig, crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a gwybodaeth am y polisïau lleol a chenedlaethol a oedd yn berthnasol wrth asesu'r cais. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Pennaeth Cynllunio yn argymell gwrthod y cais am y rhesymau a nodwyd yn ei hadroddiad ysgrifenedig.

**PENDERFYNWYD gwrthod cais cynllunio S/34627 am y rhesymau a roddwyd yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio.**

**4. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **E/34841** | **Un breswylfa ar dir gyferbyn â Brodawel, Llandeilo, SA19 7TA.** |

**5. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**5.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **S/33421** | **Adeiladu 4 preswylfa ynghyd â gwaith tirweddu a mynediad cysylltiedig, tir yn 58 Heol Llannon, Pontyberem, Llanelli SA15 5LY;** |
| **S/34146** | **Datblygiad preswyl i gynnwys hyd at 24 o breswylfeydd a gwaith cysylltiedig, tir ger Park View Drive, Cydweli, SA17 4UP.** |

**5.2 PENDERFYNWYD gwrthod y cais cynllunio canlynol am y rhesymau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio.**

| | |
|---|---|
| **S/34721** | **Adeiladu preswylfa i alluogi rheoli olyniaeth fferm, tir sy'n rhan o Fferm Coed Derwen, Llwynteg, Llannon, Llanelli, SA14 8JQ.** |

**6. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**6.1 PENDERFYNWYD gwrthod y cais cynllunio canlynol am y rhesymau y manylwyd arnynt yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio.**

| | |
|---|---|
| **W/34798** | **Mae'r cais hwn yn ymwneud ag adeiladu caban pren ger yr adeiladau presennol yng Nghreigiau Bach. Mae angen llety ychwanegol er mwyn i'r busnes gwyliau presennol ddarparu lleoedd ychwanegol. Bydd y llety yn hygyrch i bobl mewn cadeiriau olwyn a'r rhai llai abl er mwyn cefnogi ein model busnes i ddarparu llety hygyrch o ansawdd uchel sy'n brin yn yr ardal hon, Creigiau Bach, Llangain, Caerfyrddin, SA33 5AY;** |

**6.2 PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhesymau dros gymeradwyo'r cais a'r amodau a ddrafftiwyd gan y Pennaeth Cynllunio, fel y'u nodwyd yn yr adroddiad, mewn perthynas â'r cais cynllunio canlynol, y rhoddodd y**

**Pwyllgor Cynllunio ganiatâd cynllunio iddo, yn groes i argymhelliad y swyddog ar 20 Rhagfyr Medi, 2016:-**

| | |
|---|---|
| **W/34187** | **Cais am 10 carafán newydd a 2 garafán sefydlog wedi eu hail-leoli ym mharc carafannau Waunygroes, Llan-y-bri, Caerfyrddin, SA33 5AN.** |

**7. COFNODION**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor a oedd wedi'u cynnal ar 18 a 20 Rhagfyr 2016, gan eu bod yn gywir.**

______________________________ ______________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**